

## **Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol**

Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer  
2022/23 i Gomisiynydd y Gymraeg

# Cynnwys

<b>Trosolwg</b>	<b>3</b>
1. Cyflwyniad	3
2. Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA – Crynodeb	3
3. Trosolwg ac Uchafbwyntiau Cynnydd	4
4. Cynnydd	5
5. Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella	8
6. Datblygiadau yn y dyfodol	8
<b>Atodiad 1 – Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu (camau gweithredu blwyddyn 1)</b>	<b>9</b>

# Trosolwg

## 1. Cyflwyniad

---

**1.1** Yr FCA yw'r rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer 45,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU a'r rheoleiddiwr darvoudus ar gyfer dros 44,000 o'r cwmnïau hynny. Mae tua 1,800 o'r cwmnïau hyn wedi'u lleoli yng Nghymru.

**1.2** Ein hamcan strategol yw sicrhau bod marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda a'n hamcanion gweithredol yw:

- amddiffyn defnyddwyr rhag ymddygiad gwael
- amddiffyn uniondeb system ariannol y Deyrnas Unedig
- hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr

Ers 2023, mae gennym amcan eilaidd i hwyluso cystadleurwydd a thwf rhyngwladol economi'r DU yn y tymor canolig i'r tymor hir (yn amodol ar alinio â safonau rhyngwladol).

**1.3** Rydym yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n cael ei ariannu'n gyfan gwbl drwy'r ffioedd rydym yn eu codi ar gwmnïau a reoleiddir. Rydym yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU, ac i Senedd y DU.

**1.4** Diffinnir ein rôl a'n hamcanion yn bennaf gan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (FSMA). Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnach a chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr domestig, deddfwyr yr UE ac ystod eang o randdeiliaid eraill. Gyda'r cylch gwaith helaeth hwn, rydym yn defnyddio dull gweithredu cymesur o reoleiddio, gan flaenoriaethu'r meysydd a'r cwmnïau sy'n peri risg uwch i'n hamcanion. Mae gennym ddyletswydd o dan FSMA i ddefnyddio ein hadnoddau yn economaidd ac yn effeithlon.

**1.5** Rydym yn gweithio ar draws y DU gyda phrif swyddfa yn Llundain, swyddfeydd yn Leeds a Chaeredin a chydweithwyr yn Belfast a Chaerdydd. Cyflogir tua 4,500 o staff – gan ddarparu gwasanaethau i gwmnïau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**1.6** Mae'r adroddiad monitro hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) o ran cyflawni'r ymrwymïadau a wnaed o fewn ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2022/23.

## 2. Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA – Crynodeb

---

**2.1** Mae'r cyfnod adrodd sy'n berthnasol i'r diweddariad hwn yn cynnwys camau olaf cyflwyno ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol, a gymeradwywyd yn 2017, yn ogystal â'r misoedd cyntaf o gyflawni ein cynllun diwygiedig fel y'i cymeradwywyd ym mis Chwefror 2023. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu 1 Ebrill 2022 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023.

**2.2** Mae'r ddau gynllun yn disgrifio sut y byddwn ni, i'r graddau y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithio i'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hefyd yn ystyried dyletswydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, fel y'i diwygiwyd, i ddefnyddio ei adnoddau yn economaidd ac yn effeithlon.

### **3. Trosolwg ac Uchafbwyntiau Cynnydd**

---

**3.1** Oherwydd oedi yn y broses gymeradwyo ar gyfer y Cynllun diwygiedig, a chwblhau camau gweithredu Cynllun Gweithredu 2017 cyn dechrau'r cyfnod adrodd hwn, ystyriwyd 2022/23 yn gyfnod trosiannol i'r FCA mewn perthynas â'n gwasanaethau a'n darpariaeth Gymraeg.

**3.2** Mae'r Cynllun diwygiedig, sy'n seiliedig i raddau helaeth ar y cynllun y cytunwyd arno'n flaenorol, yn adeiladu ar yr ymrwymadau a wnaed ac yn rhoi cyfle i'r FCA ailddatgan ein hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb yn y gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru.

**3.3** Mae'r cynllun newydd hwn wedi'i gynllunio i fod yn fwy rhagweithiol ac mae'n rhoi mwy o eglurder a ffocws mewn perthynas â'n hymrwymadau.

**3.4** Mae Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun gweithredu, ac mae rhai o'r uchafbwyntiau cyffredinol yn cynnwys:

- Defnyddio offeryn penderfynu cyfieithu dogfennau i adnabod cyhoeddiadau yr ydym wedi mynd ati i'w cyfieithu. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â Gwasanaeth Pensiwn British Steel gan fod nifer sylweddol o'r aelodau yr effeithiwyd arnynt yn dod o Gymru.
- Defnyddio'r offeryn cyfarfod a digwyddiadau i adnabod ble roedd yr FCA yn mynd i gynbig cyfieithu ar y pryd yn rhagweithiol mewn cyfarfodydd, roedd hyn yn cynnwys digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd.
- Darparu sesiynau briffio staff sy'n canolbwyntio ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac ymrwymadau ein Cynllun Iaith Gymraeg.
- Cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol, ein dogfen gorfforaethol flaenllaw yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

## 4. Cynnydd

---

### 4.1 Delio â'r cyhoedd yng Nghymru

#### 4.1.1 Gohebiaeth

Rydym yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb yn Gymraeg yr un fath ag ar gyfer gohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg.

Fel rhan o'n hymrwymiaidau, rydym yn cymryd ymagwedd ragweithiol i roi cyhoeddusrwydd i'r cynnig hwn, gan gynnwys ar ein gwefan a'n gohebiaeth awdurdodi swyddogol gyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru.

Gallwn gadarnhau nad ydym yn trin fersiwn Gymraeg gohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg gyfatebol, ac mae cymorth ar gael i sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaethom ymdrin ag ymholiadau generig a dderbyniwyd yn Gymraeg gan ddefnyddwyr a chwmnïau, y gwnaethom ymateb iddynt oll o fewn yr amserlenni a gyhoeddwyd.

O fewn y flwyddyn gyntaf o gyflwyno ein Cynllun diwygiedig, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod un cyswllt e-bost ar gael gyfer pob ymholiad cyffredinol yn y Gymraeg, a'i hyrwyddo. Mae ein cyfeiriad e-bost [cymraeg@fca.org.uk](mailto:cymraeg@fca.org.uk) yn ymddangos ar ein gwefan.

#### 4.1.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Yn unol â'n hymrwymiaidau, byddwn yn darparu opsiwn Cymraeg ar ein prif linellau cymorth ffôn i Ddefnyddwyr a Chwmnïau lle gall pobl sy'n ffonio siarad â'r FCA yn Gymraeg o fewn y ddwy flynedd gyntaf o weithredu'r cynllun. Bydd hyn yn cael ei hwyluso drwy wasanaeth cyfieithu 'ffonio'n ôl' a drefnir erbyn y diwrnod gwaith nesaf fan bellaf. Credwn fod hyn yn arwydd o'n hymrwymiad a wnaed yn y cynllun blaenorol i wella ein gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn. Erbyn hyn mae gan yr Hwb Goruchwyllo, sy'n cynnwys galwadau gan gwmnïau a defnyddwyr, gyfleuster yn ei le gydag asiantaeth allanol i gyfieithu galwadau. Mae goruchwylwyr yn rhoi'r person sy'n ffonio 'ar aros', yn cysylltu â'r asiantaeth, ac unwaith y byddant drwodd i'r cyfieithydd, maen nhw'n parhau â'r alwad.

#### 4.1.3 Cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau a thrafodion eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Mae ein cynllun diwygiedig yn cynnwys dull mwy penodol i'r ffordd yr ydym yn trefnu ac yn cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus yng Nghymru. Er nad ydym yn trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau o'r fath yn rheolaidd, yn ystod y flwyddyn buom yn hyrwyddo cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â Chynllun Pensiwn British Steel yn Gymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd 11 o grwpiau ffocws a digwyddiadau dros dro yn Nhredegar, Abertawe, Port Talbot, Llanelli, Casnewydd, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Glyn Ebwy a Glannau Dyfrdwy.

Defnyddiwyd ein teclyn cynllunio cyfarfodydd a digwyddiadau newydd i helpu i gynllunio trefniadau ar gyfer cyfarfod a gynhaliwyd yn y Senedd, gyda chyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu'n rhagweithiol ar gyfer mynychwyr a oedd yn dymuno cymryd rhan yn Gymraeg. Darparwyd y cyflwyniad a ddangoswyd yn y digwyddiad yn Gymraeg hefyd.

Ni wnaethom ymgymryd ag arolygon papur/ ar-lein gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd.

## 4.2 Cynnydd – Ein wyneb cyhoeddus

### 4.2.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

O fewn ein Cynllun, gwnaethom ymrwymo, wrth gynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, a gweithgareddau hysbysebu yng Nghymru – wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru fel rhan o weithgaredd y DU gyfan, i ddarparu deunydd perthnasol mewn fformat Cymraeg a Saesneg dwyieithog, neu ar wahân. Yn ystod y cyfnod adrodd gwnaethom ddarparu deunyddiau hyrwyddo a gwybodaeth a oedd yn gysylltiedig â'r BSPS yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Enghraifft arall yw'r ymgyrch twyll ffioedd benthyciadau sydd wedi cynnal yr ymrwymiad i'r Gymraeg drwy ein gwaith partneriaeth. Fe wnaethon ni greu pecyn cymorth partneriaeth yn Gymraeg a oedd yn cynnwys postïadau a chopi cyfryngau cymdeithasol, dogfennau briffio staff a phosteri i bartneriaid Cymraeg rannu negeseuon allweddol twyll ffioedd benthyciadau gyda'u rhwydwaith. Roedd ein partneriaid yn cynnwys, Stop Loan Sharks Wales, FinTech Wales, ChildCom Wales, Cymdeithas Adeiladu Sir Fynwy a Llywodraeth Cymru. Rhannwyd y pecyn cymorth gyda dros 200 o sefydliadau partner ledled Cymru.

### 4.2.2 Cyhoeddiadau defnyddwyr

Rydym wedi mabwysiadu dull symlach a chyson o sicrhau bod cyhoeddiadau generig ar gael yn ddwyieithog. Mae hyn yn ein galluogi i gymryd agwedd fwy cymesur a rhesymol, ac mae hyn yn cyd-fynd â nifer o sefydliadau eraill sy'n gweithredu o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg, felly bydd y dull yn gyfarwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Wrth symud ymlaen, bydd deunyddiau defnyddwyr a chyhoeddiadau corfforaethol ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn rhagweithiol:

- Lle maen nhw'n ymwneud yn benodol â Chymru
- Pan fydd y pwnc yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg
- Pan fydd y gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg

Er mwyn sicrhau cysondeb, mae'r FCA yn defnyddio proses sgrinio i adnabod dogfennau o'r fath, yn ystod y flwyddyn gweithredwyd hyn a darparwyd nifer o ddogfennau yn Gymraeg, na fyddai o bosibl wedi bod yn y gorffennol. Mae'r rhain yn cynnwys prif dudalen Cynllun lawndal BSPS, CP22/6: ein hymgyngghoriad ar dudalen y Cynllun lawndal a thudalen Sut i gwyno BSPS.

Hefyd, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn ein Cynllun, cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol, sef ein prif ddogfen gorfforaethol, yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

### **4.2.3 Gwefannau**

Mae'r adran bwrpasol ar gyfer y Gymraeg ar wefan yr FCA yn parhau i fod yn ganolbwynt ac yn ganolbwynt ar gyfer ein holl ddeunydd Cymraeg ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog yn ogystal â'n Cynllun a'n Cynllun Gweithredu. Mae'n hawdd cyrraedd yr adran Gymraeg o'r dudalen gartref.

Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi cofnodi cyfanswm o 2,259 o ymweliadau ag adrannau Cymraeg ar [www.fca.org.uk](http://www.fca.org.uk). Mae hyn wedi'i rannu'n 2,044 i'n tudalennau Cymraeg a 215 i'n tudalennau defnyddwyr.

Bydd y dudalen we Gymraeg yn cynnwys 'ffurflen cysylltu â ni' Cymraeg erbyn diwedd yr ail flwyddyn o weithredu ein cynllun diwygiedig, lle gall siaradwyr Cymraeg lenwi ffurflen gyswllt gydag ymholiadau cyffredinol. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i roi hyn ar waith.

### **4.2.4 Cyfryngau cymdeithasol**

Rydym yn parhau i reoli ffrwd 'X' (Twitter) corfforaethol Cymraeg penodol – @FCACymru, er ein bod yn cydnabod bod lle i gynyddu nifer y dilynwyr, rydym wedi gweld cynnydd cyffredinol mewn ymgysylltu, gyda phostiadau'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am rybuddion cwmnïau yn gyffredinol yn profi cyfraddau ymgysylltu gwell.

### **4.2.5 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig**

Yn yr un modd â'r ffordd yr ydym bellach yn ymdrin â chyhoeddiadau, rydym wedi mabwysiadu dull symlach a chyson o sicrhau bod ffurflenni ar gael yn Gymraeg yn rhagweithiol. Unwaith eto, mae hyn yn ein galluogi i gymryd safle mwy cymesur a rhesymol, ac un sy'n cyd-fynd â sefydliadau eraill sy'n gweithredu o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg, felly bydd y dull gweithredu yn gyfarwydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Wrth symud ymlaen, bydd ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn rhagweithiol:

- Lle maen nhw'n ymwneud yn benodol â Chymru
- Pan fydd y pwnc yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg
- Pan fydd y gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg

### **4.2.6 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff**

Yn ystod y cyfnod adrodd ni wnaethom gyhoeddi unrhyw hysbysiadau swyddogol perthnasol, hysbysiadau cyhoeddus na hysbysiadau recriwtio staff.

#### **4.2.7 Codi ymwybyddiaeth**

Rydym wedi hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg drwy roi gwybod i'r cyhoedd yng Nghymru drwy ohebiaeth, ar ein gwymbodaeth ffôn Gymraeg, ar ein gwefan a'n ffrwd Cymraeg ar 'X' (Twitter).

### **4.3 Cynnydd – Gweithredu'r Cynllun**

#### **4.3.1 Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol**

Ar hyn o bryd nid oes swyddi o fewn strwythur staffio'r FCA lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaethau'r Cynllun yn cael eu cyflawni, a gwneir hyn drwy weithio gyda chynghorwyr allanol a sicrhau bod ein staff yn ymwybodol o'n hymrwymiaidau a'u cyfrifoldebau.

Rydym wedi ymrwymo i gynhyrchu canllaw i weithwyr sy'n ymdrin ag elfennau allweddol y cynllun i helpu ein cydweithwyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn cyflawni a gweithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun.

#### **4.3.2 Trefniadau mewnol**

Mae'r cynllun a'r ymrwymiaidau a wnaed ynddo yn derbyn cefnogaeth lawn ein Harweinyddiaeth Uwch. Mae rheolwyr perthnasol yn gyfrifol am gyflawni camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu.

Y Pennaeth Cynnwys a Sianeli o fewn y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu sy'n gyfrifol am adolygiad a monitro parhaus y cynllun, ac mae hyn yn galluogi i'r FCA sicrhau lefel o gysondeb o fewn yr adran sy'n bennaf gyfrifol am ein gwaith sy'n wynebu'r cyhoedd.

## **5. Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella**

---

Rydym yn falch o adrodd na chawsom unrhyw gwynion mewn perthynas â'n gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

## **6. Datblygiadau yn y dyfodol**

---

Credwn fod y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn rhoi'r FCA mewn sefyllfa gryfach o ran ein darpariaeth gwasanaeth Cymraeg nag erioed o'r blaen ac yn tanlinellu ein hymrwymiad i wella ein darpariaeth yn barhaus. Er bod y cyfnod adrodd wedi bod yn un o bontio, rydym wedi anelu at ystyried y Gymraeg yn rhagweithiol o fewn y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â defnyddwyr a chwmnïau yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod gennym waith i'w wneud, ein nod, dros y deuddeg mis nesaf, fydd cyflawni ein camau gweithredu Cynllun Gweithredu Blwyddyn 1.



## Atodiad 1 – Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu (camau gweithredu blwyddyn 1)

Cyf	Gweithred	Diweddariad
A1	Byddwn yn sicrhau bod un cyswllt e-bost ar gael ar gyfer pob ymholiad cyffredinol yn Gymraeg.	Ar y gweill, i'w gyflawni erbyn diwedd mis Chwefror 2024
A2	Sicrhau bod fersiwn Gymraeg ein gohebiaeth awdurdodi gyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru yn cynnwys trosolwg o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg yn ogystal â datganiad yn cadarnhau na fydd gohebu â ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.	Wedi'i gwblhau ac yn ei le
A3	Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth dorfol a fwriedir ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru yn unig, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog	Wedi'i gwblhau a'i ddangos yn ein dull o ymdrin â gohebiaeth sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn British Steel
A6	Darparu rhestr o'r cyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan ac o fewn ein hadroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.	Wedi'i gwblhau ac yn ei le
A7	Datblygu neu ddiwygio canllawiau staff i roi eglurder ar sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.	Ar y gweill, i'w gyflawni erbyn diwedd mis Chwefror 2024 (rydym yn bwriadu hyrwyddo'r canllawiau hyn ar Ddydd Gŵyl Dewi)
A8	Trefnu sesiynau briffio a hyfforddiant i staff allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd	Wedi'i gwblhau ac yn parhau
A9	Adrodd i uwch reolwyr ar y cynnydd o ran gweithredu'r cynllun yn flynyddol.	Wedi'i gwblhau
A10	Paratoi adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg yn flynyddol ac yn ôl y gofyn, gan amlinellu cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu.	Wedi'i gwblhau



© Financial Conduct Authority 2024  
12 Endeavour Square London E20 1JN  
Telephone: +44 (0)20 7066 1000  
Gwefan: [www.fca.org.uk](http://www.fca.org.uk)  
Cedwir pob hawl